Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
held on Thursday 22 June 2017 in the Eleth/Eilian Rooms, Wylfa.

Present:

Aled M Jones	IOACC – Twrcelyn Ward (SSG Chair)
Stuart Law	Wylfa Site Director
Jill Callander	Magnox SSG Secretariat
Mair Jones	Magnox Socio-economic Lead
Mark Elsworth	Magnox
Nick Blackburn	Office for Nuclear Regulation
Nigel Lowe	Nuclear Decommissioning Authority
Richard Griffiths	IOACC - Twrcelyn Ward
Gwilym O Jones	IOACC Representative
Ken P Hughes	IOACC - Talybolion Ward
John Griffith	IOACC – Talybolion Ward
Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Gordon Warren	Amlwch Town Council
Roger Dobson	Llanbadrig Community Council
Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Tom Conway	Wylfa Retirees Association/Cemaes Bay Football Club
Roy Chape	DC Welsh Water
Tanya Hughes	DC Welsh Water
Tim Poole	CPRW
Paul Wright	National Resources Wales
Rona Arkle	National Resources Wales
Gareth Davies	Wylfa Union Representative
Sarah Andrews	Public Health Wales
Medwyn Griffiths	Public Health Wales
Geraint Hughes	North Wales Fire and Rescue Service
Frances Taylor	Rhun ap Iorwerth AM

Apologies:

Enid Jones	Merched y Wawr
Gary Leighton-Jones	North Wales Police
Richard Foxhall	Horizon
Jonathan Jenkin	Nuclear Decommissioning Authority
Cllr Llinos Medi Hughes	IOACC – Talybolion Ward
Cllr Jac Jones	Mechell Community Council
Gwyn Hughes	Emergency Planning, North Wales Councils
Cllr Richard Owain Jones	IOACC, Twrcelyn Ward
Mike Dodds	Wylfa Retirees Association
Gwyn Roberts	Operational Risk Planning and Resilience Manager, North Wales Fire Service

Also:

Bethan Roberts	Translation – Cymen
Elen Jones	Minutes – Cymen

1. **Welcome and receive apologies for absence**

   Aled M Jones welcomed everyone to the meeting after the original meeting scheduled for 8 June had been cancelled due to the General Election.

   A warm welcome was extended to Cllr Richard Griffiths, Twrcelyn Ward, Cllr Gwilym O Jones, who had been appointed by IOACC as the SSG Representative, Cllr Roger Dobson, Llanbadrig Community Council, Tanya Hughes, Welsh Water (attending with Roy Chape), Mr Medwyn Hughes, Public Health Wales (attending with Sarah Andrews), Frances Taylor, attending on behalf of Rhun ap Iorwerth, and Cllr Gordon Warren, Amlwch Town Council.

   The Chair thanked Cllr Alwyn Rowlands, who had stood down from being a County Councillor having been involved with Wylfa and the SSG for many years, as well as Cllr W Hughes for their support and attendance at Wylfa SSG Meetings.

2. **Approval of the minutes of the meeting held on 9 February 2017**

   The minutes were approved as a true and correct record, proposed by R Dobson and seconded by Derek Owen.

3. **Matters arising from the previous Minutes**

   Any matters would be discussed as the meeting proceeded.

4. **SSG Chairman's Report**

   There had been two periods of Purdah since the previous meeting due to the Local Council Elections and also the General Election. This explained why the scheduled meeting on 8 June had to be rearranged to today. The main announcement during that time was that the Cavendish Fluor Partnership contract was to be mutually terminated by the NDA in September 2019. On that note, Nigel Lowe, Head of Programme for Magnox Ltd from the Nuclear Decommissioning Authority was welcomed to the meeting. The Chair advised the Site Stakeholder Group Members that he would be attending the SSG Chairs Meeting with the Nuclear Decommissioning Authority next week in Warrington and that he would provide feedback following that.

5. **Wylfa Site Director's Report**

   Stuart Law was pleased to advise that there were no lost time incidents to report. However, in April, the site had been given an Improvement Notice by ONR to review the Asbestos Management Plan and ensure a risk based approach is used so that the site can demonstrate that it is tackling the highest priority items first. An action plan to address the asbestos Improvement Notice was subsequently developed and sent to the ONR. Following on from that, the ONR Conventional Safety Inspector had visited the site on 2/3 May to discuss the plan and check on progress, and a revised plan had been presented to the ONR on 7 June.

   Daily asbestos monitoring is being conducted and to date no levels have been found to cause concern, but extra precautions were being taken to safeguard personnel by restricting access to the turbine hall and the reactor equipment building.

Stuart Law advised the Group that 150 samples were being taken on a weekly basis to ensure people were not being exposed to asbestos. But, ultimately, the asbestos needs to be removed, and a specialist company would be coming on the site to deal with the removal. As a result of this, approximately 90 additional people (Kaifer) would be coming to Wylfa Site, with the Turbine Hall being the starting point of the project.

Defuelling has not been progressing as well as expected. Three activities had been taking place – taking fuel out of Reactor 1, taking fuel out of Reactor 2 and filling flasks. There had been some challenges within the first nine months and at some points all three activities were taking place at once.

The simple aim regarding defuelling is to ensure that it is done safely and to make sure that Sellafield does not have to wait for fuel from Wylfa.

A project to recover fuel element corrosion debris from Dry Store Cell 4 is preparing to enter active commissioning. When entry is made into the cell, this will be the first time since its construction. Subject to the agreement of ONR, it is expected that the retrieval operations will commence later on in the year.

Sadly, there has been an increase in security issues across the UK and with this in mind Magnox is encouraging its staff to take appropriate precautions and to always remain alert. With regards to cyber-attacks, it was emphasised that no systems which control any parts of the plant are linked to the internet.

In a few years time, EDF Energy will be embarking on its AGR closure programme. As Wylfa is the most recent site to transition from generation to defuelling, the site was asked to host a visit in order to share the key lessons learned with EDF senior managers.

Manchester was the host city to 400 young nuclear professionals from across the world for the prestigious European Nuclear Young Generation Forum 2017 on 11-16 June. A group of 28 delegates visited the Wylfa Newydd site on 14 June as part of the forum.

The keys to Wylfa Sports & Social Club were formally handed over to Horizon Nuclear Power on 31 May 2017 and it was recognised that this has been an important community asset over many years.

Thanks to the tremendous support from the community and a £1597 contribution from Wylfa staff/contractors has funded a new wheelchair for a young local lady called Naomi Cooper.

Questions

Cllr Ken Hughes stated that it was disappointing to presume that there were inadequate measures for asbestos in place before the Improvement Notice was issued.

Stuart Law noted that he did accept there were some deficiencies, but he did not believe that people's health was put at risk. He explained that the monitoring may have been less extensive than it is today, but additionally he could not give assurances of what happened in the early years of operation at the site.

Tom Conway enquired whether Wylfa is the sole supplier of irradiated fuel to Sellafield.
Stuart Law replied that there were two other sites, namely Dounreay in Scotland and Calder Hall, which is located very close to Sellafield.

Cllr Roger Dobson enquired about the current levels of personnel.
Stuart Law noted that there were 304 members of Magnox staff working on the site at present.

Gwilym O Jones stated that regarding the Sports & Social Club, it was noted that it was important to remember that the building had also been a training centre for apprentices in the past.
Stuart Law agreed that this was the case.

Gordon Warren enquired about the changes that are likely to happen in staff levels in the future.
Stuart Law replied that there would be a gradual drift downwards, but nothing too significant, at least until the defuelling work had been completed. After that, it is expected that the number will approximately halve.

6. Nuclear Decommissioning Authority Update

Nigel Lowe presented the latest update.

There were three main topics to mention – organisational changes within the Nuclear Decommissioning Authority, termination of the Cavendish Fluor Partnership contract and plans in advance of the contract termination.

A new Chairman, Tom Smith, was now in post. He is a Member of the Institute of Directors and was an NDA Non-Executive Director from 2013 until he stepped into the Chairman's role. A new CEO, David Peattie, has also been appointed. He has an extensive background in the oil and gas sector. Both bring valuable business experience to the NDA.

The contract with Cavendish Fluor Partnership is to be mutually terminated, with the termination taking place in September 2019. Mr Lowe reported that this was in no way an issue of performance of either CFP or Magnox. The options moving forward were being considered and former National Grid Chief Executive Dr Steven Holliday had been appointed to lead an independent inquiry into the matter to look at lessons to be learned. The Secretary of State requested the review in order to be able to decide whether to run another tender competition or to alter the business model so that it is similar to Sellafield.

A team is working on this at present, in order to make a recommendation to the Government and it is hoped that a decision would be made by Christmas 2017.

Questions

Aled M Jones stated that when the competition process begun the SSG Chairs were assured that it was so thorough there wouldn't be any issues. But there are, such as time and money. Serious questions need to be asked in order to learn how things have gone astray. He also expressed his interest meeting with Dr Holliday.

Nigel Lowe was happy to take the comments back. He was in agreement that there are serious questions here, and serious lessons to be learned from the Energy*Solutions* issue.

7. Office for Nuclear Regulation Update

The ONR report was presented by Nick Blackburn.

Nick Blackburn advised that his plans for the future were to reduce his presence on the site, with the aim of inspecting two months out of three, rather than every two months.

Regarding inspections to date, no issues had been raised or found. There were no issues from a nuclear radiological safety perspective.

He noted that his colleagues in ONR had issued an Improvement Notice relating to asbestos, but emphasised that this isn't a Wylfa specific issue – it is a Magnox and nuclear estate issue. Another site would have received the same notice.

8. Natural Resources Wales Update

The report was presented by Paul Wright.

There had been a reduction in discharges since the end of generation, and there was no cause for concern.

An inspection at another Magnox site in late 2016 identified that alarm levels in the monitoring equipment used to clear waste from the reactor building had not been updated to reflect the most recent waste 'fingerprints'. A similar issue had been identified at Wylfa in December 2016. A site warning had been issued, and the response from the site was good and proactive, with corrective actions being put in place.

9. Wylfa Waste Manager Update

The report was presented by Stuart Law.

There was nothing out of the ordinary to report. The waste is leaving the site efficiently with up to 5-6 flasks being transported every week.

In addition, one container of asbestos waste leaves the site every week.

Questions

Gordon Warren enquired whether an incinerator was still operated on the site.
Stuart Law replied that the incinerator on site had ceased being used and had been shut down three years ago.

10. Socio Economic Scheme Update

Mair Jones gave a report on the Socio Economic Scheme.

The Magnox Socio Economic Video for 2016 was played to the audience.

142 organisations had been supported across the sites in 2016-17, which came to a total of £724,279.

Wylfa had 26 approved applications, with the funding awarded coming to £396.853.

A total of £38,892 had been awarded in the Wylfa area this financial year, with Benllech Over 50s Club, Ysgol Friars Outdoor Activity Club, North Wales Old Gaffers Club and the Menai Straits Regatta receiving funds under the Good Neighbour scheme.

The Môn Communities First Driving Skills Programme and Construction Skills Test Centre had received £37,372 for their third year of the programme under the Mitigation scheme.

It was also noted that a two week cycling festival, leading up to the Aviva Tour of Britain's first ever Stage 1 'Grand Depart' from Wales, had been supported by the Magnox socio-economic scheme over the past two years, and that the National Eisteddfod of Wales – which will be held in Anglesey in August – had also received support. Magnox Ltd is hosting an exhibition stand and a welcome was extended to all of the SSG Members to pay a visit if they were attending the Eisteddfod.

11. Open Forum Question and Answer Session

There were no further questions.

12. Any Other Business

The meeting closed at 1540 Hrs

The next meeting is scheduled for Thursday 12 October 2017.

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
a gynhaliwyd ddydd Iau 22 Mehefin 2017 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian, Wylfa.

Yn bresennol:

Cyng Aled M Jones	Cyngor Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd GRhS)
Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Wylfa
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth GRhS Magnox
Mair Jones	Prif Swyddog Materion economaidd- gymdeithasol Magnox
Mark Elsworth	Magnox
Nick Blackburn	Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Nigel Lowe	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cyng Richard Griffiths	Cyngor Môn - Ward Twrcelyn
Cyng Gwilym O Jones	Cyngor Môn - Cynrychiolydd
Cyng Ken P Hughes	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Cyng John Griffith	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Roger Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Tom Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa /Clwb Pêl Droed Cemaes
Roy Chape	Dŵr Cymru Welsh Water
Tanya Hughes	Dŵr Cymru Welsh Water
Tim Poole	Cymdeithas Diogelu Cymru Wledig
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rona Arkle	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gareth Davies	Cynrychiolydd Undeb Wylfa
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Medwyn Griffiths	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru
Frances Taylor	Rhun ap Iorwerth AC

Ymddiheuriadau:

Enid Jones	Merched y Wawr
Gary Leighton-Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Richard Foxhall	Horizon
Jonathan Jenkin	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cyng Llinos Medi Hughes	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Cyng Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Gwyn Hughes	Cynllunio at Argyfwng, Cynghorau Gogledd Cymru
Cyng Richard Owain Jones	Cyngor Môn, Ward Twrcelyn
Mike Dodds	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
Gwyn Roberts	Rheolwr Cynllunio Risg Weithredol a Chydnerthu, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru

Hefyd:

Bethan Roberts	Cyfieithu ar y pryd – Cymen
Elen Jones	Cofnodion – Cymen

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cyng Aled M Jones bawb i'r cyfarfod ar ôl i'r cyfarfod gwreiddiol a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 8 Mehefin gael ei ganslo oherwydd yr Etholiad Cyffredinol.

Estynnwyd croeso cynnes i'r Cyng Richard Griffiths, Ward Twrcelyn, y Cyng Gwilym O Jones, sydd wedi'i benodi gan Gyngor Môn fel Cynrychiolydd y GRhS, y Cyng Roger Dobson, Cyngor Cymuned Llanbadrig, Tanya Hughes, Dŵr Cymru (sy'n bresennol gyda Roy Chape), Mr Medwyn Hughes, Iechyd Cyhoeddus Cymru (sy'n bresennol gyda Sarah Andrews), Frances Taylor, sy'n bresennol ar ran Rhun ap Iorwerth, a'r Cyng Gordon Warren, Cyngor Tref Amlwch.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Alwyn Rowlands, sydd wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Sir ac i'r Cyng W Hughes sydd wedi bod yn gysylltiedig â Wylfa a'r GRhS am flynyddoedd lawer; roedd eu cefnogaeth a'u presenoldeb yng nghyfarfodydd GRhS Wylfa yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2017

Cynigiwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir gan R Dobson ac eiliwyd y cynnig gan Derek Owen.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol

Byddai unrhyw faterion yn cael eu trafod wrth i'r cyfarfod fynd rhagddo.

4. Adroddiad Cadeirydd GRhS

Bu dau gyfnod tawel ers y cyfarfod diwethaf o ganlyniad i'r Etholiadau Lleol a'r Etholiad Cyffredinol. Dyma'r rheswm pam y bu'n rhaid ad-drefnu'r cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 8 Mehefin ar gyfer heddiw. Y prif gyhoeddiad ar yr adeg honno oedd y bydd contract Cavendish Fluor Partnership yn cael ei derfynu gan yr ADN gyda chytundeb y ddwy ochr ar 9 Medi 2019. Ar y nodyn hwnnw, croesawyd Nigel Lowe, Pennaeth Rhaglen ar gyfer Magnox Ltd o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau Grŵp Rhanddeiliaid y Safle y byddai'n bresennol yng Nghyfarfod Cadeiryddion GRhS gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yr wythnos ganlynol yn Warrington ac y byddai'n cyflwyno adborth ar ôl y cyfarfod.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Roedd Stuart Law yn falch o gyhoeddi nad oedd dim digwyddiadau lle collwyd amser i'w hadrodd. Fodd bynnag, ym mis Ebrill, roedd y safle wedi cael Hysbysiad Gwella gan yr ONR i adolygu'r Cynllun Rheoli Asbestos ac i sicrhau bod dull yn seiliedig ar risgiau yn cael ei ddefnyddio fel y gall y safle ddangos ei fod yn mynd i'r afael â materion sydd â'r flaenoriaeth uchaf yn gyntaf. Cafodd cynllun gweithredu i roi sylw i'r Hysbysiad Gwella asbestos ei ddatblygu a'i anfon at yr ONR. Yn dilyn hynny, roedd Arolygydd Diogelwch Confensiynol yr ONR wedi ymweld â'r safle ar 2/3 Mai i drafod y cynllun ac i weld y cynnydd a oedd wedi'i wneud, a chafodd cynllun diwygiedig ei gyflwyno i'r ONR ar 7 Mehefin.

Mae gwaith dyddiol i fonitro asbestos wedi bod yn cael ei wneud a hyd yma ni chanfuwyd lefelau sy'n achosi pryder, ond roedd rhagofalon ychwanegol yn cael eu cymryd i ddiogelu staff trwy gyfyngu ar fynediad i'r neuadd dyrbin ac adeilad cyfarpar yr adweithydd.

Dywedodd Stuart Law wrth y Grŵp fod 150 o samplau'n cael eu cymryd yn wythnosol i sicrhau nad oedd pobl yn cael eu hamlygu i asbestos. Ond, yn y diwedd rhaid cael gwared ar yr asbestos, a bydd cwmni arbenigol yn dod i'r safle i'w waredu. O ganlyniad i hyn, bydd tua 90 o bobl yn ychwanegol (Kaifer) yn dod i Safle Wylfa, a bydd y prosiect yn cychwyn yn y Neuadd Dyrbin.

Nid yw'r gwaith o wagio'r tanwydd wedi mynd yn ei flaen gystal â'r disgwyl. Roedd tri darn o waith wedi bod yn digwydd – cymryd y tanwydd o Adweithydd 1, cymryd y tanwydd o Adweithydd 2 a llenwi fflasgiau. Wynebwyd rhai problemau yn ystod y naw mis cyntaf ac ar rai adegau roedd y tri gweithgarwch yn digwydd ar yr un pryd.

Nod syml gwagio'r tanwydd yw sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ddiogel a gwneud yn siŵr nad oes yn rhaid i Sellafield aros am danwydd o Wylfa.

Mae prosiect i adennill malurion erydiad elfennau tanwydd o Gell Storio Sych 4 yn barod i ddechrau datgomisiynu. Pan geir mynediad i'r gell, dyma fydd y tro cyntaf ers ei hadeiladu. Yn amodol ar gytundeb yr ONR, disgwylir y bydd y gwaith adennill yn cychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn anffodus, bu cynnydd mewn ystyriaethau diogeledd ledled y DU a gyda hyn mewn golwg mae Magnox yn annog staff i gymryd rhagofalon priodol ac i fod ar eu gwyliadwriaeth gydol yr amser. O ran ymosodiadau seibr, pwysleisiwyd nad oes dim systemau sy'n rheoli unrhyw ran o'r orsaf wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd.

Mewn ychydig flynyddoedd, bydd EDF Energy yn cychwyn ar eu rhaglen i gau'r AGR. Gan mai Wylfa yw'r safle mwyaf diweddar i symud o gynhyrchu i wagio tanwydd, gofynnwyd i'r safle groesawu ymweliad er mwyn rhannu'r prif wersi a ddysgwyd ag uwch reolwyr EDF.

Bu Manceinion yn croesawu 400 o weithwyr niwclear proffesiynol ifanc o bob rhan o'r byd ar gyfer Fforwm Cenhedlaeth Ifanc Niwclear Ewrop 2017 ar 11-16 Mehefin. Daeth grŵp o 28 o gynrychiolwyr i ymweld â safle Wylfa Newydd ar 14 Mehefin fel rhan o'r fforwm.

Cafodd allweddi Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Wylfa eu trosglwyddo'n ffurfiol i Horizon Nuclear Power ar 31 Mai 2017 a chafwyd cydnabyddiaeth bod y clwb wedi bod yn ased cymunedol pwysig dros y blynyddoedd.

Diolch i gefnogaeth wych y gymuned a chyfraniad o £1597 gan staff / contractwyr Wylfa llwyddwyd i dalu am gadair olwyn newydd i ferch ifanc leol o'r enw Naomi Cooper.

Cwestiynau
Nododd y Cyng Ken Hughes ei bod yn siomedig i dybio nad oedd mesurau digonol ar waith ar gyfer asbestos cyn i'r Hysbysiad Gwella gael ei gyhoeddi.
Dywedodd Stuart Law ei fod yn derbyn bod rhai diffygion, ond nid oedd yn credu bod iechyd pobl yn cael ei beryglu. Eglurodd y gallai'r gwaith monitro fod wedi bod yn llai

trylwyr nad ydyw heddiw, ond hefyd ni allai roi sicrwydd am yr hyn a allai fod wedi digwydd yn ystod blynyddoedd cynnar gweithrediadau ar y safle.

Holodd Tom Conway ai Wylfa oedd yr unig gyflenwyr tanwydd ymbelydrol i Sellafield. Yn ei ateb, dywedodd Stuart Law fod dau safle arall, sef Dounreay yn yr Alban a Calder Hall, sy'n agos iawn at Sellafield.

Holodd y Cyng Roger Dobson am y lefelau staffio presennol.
Dywedodd Stuart Law fod 304 o staff Magnox yn gweithio ar y safle ar hyn o bryd.

O ran y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, dywedodd y Cyng Gwilym O Jones ei bod yn bwysig cofio bod yr adeilad hefyd wedi bod yn ganolfan hyfforddi ar gyfer prentisiaid yn y gorffennol.
Cytunodd Stuart Law fod hynny'n wir.

Holodd Gordon Warren am y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd mewn lefelau staff yn y dyfodol. Dywedodd Stuart Law y byddai'r niferoedd yn lleihau'n raddol ond dim byd arwyddocaol iawn, o leiaf dim nes bydd y gwaith i wagio'r tanwydd wedi'i gwblhau. Ar ôl hynny disgwylir y bydd y niferoedd yn haneru, fwy neu lai..

6. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf gan Nigel Lowe.

Roedd tri phrif bwnc i'w trafod – newidiadau sefydliadol o fewn yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, terfynu contract Cavendish Fluor Partnership a chynlluniau cyn terfynu'r contract.

Roedd Cadeirydd newydd, Tom Smith, yn awr yn ei swydd. Mae'n aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr ac roedd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr ADN ers 2013 tan iddo gael ei benodi'n Gadeirydd. Mae Prif Swyddog Gweithredol newydd hefyd, David Peattie, wedi'i benodi. Mae ganddo brofiad helaeth o'r sector olew a nwy. Mae'r ddau'n dod â phrofiad busnes gwerthfawr i'r ADN.

Bydd y contract â Cavendish Fluor Partnership yn cael ei derfynu gyda chytundeb y ddwy ochr, a chaiff ei ddirwyn i ben ym mis Medi 2019. Dywedodd Mr Lowe nad oedd a wnelo hyn ddim â pherfformiad naill ai CFP na Magnox. Roedd yr opsiynau ar gyfer y dyfodol yn cael eu hystyried gan gyn Brif Weithredwr y Grid Cenedlaethol Dr Steven Holliday, a oedd wedi'i benodi i arwain ymchwiliad annibynnol i'r mater ac i edrych ar ba wersi y gellid eu dysgu. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn am yr ymchwiliad er mwyn penderfynu a ddylid cynnal cystadleuaeth arall am y tendr ynteu a ddylid newid y model busnes i fod yn debyg i Sellafield.

Mae tîm yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd, er mwyn gwneud argymhelliad i'r Llywodraeth a gobeithir y byddai penderfyniad wedi'i wneud erbyn Nadolig 2017.

Cwestiynau
Dywedodd y Cyng Aled M Jones pan gychwynnwyd y broses gystadlu roedd Cadeiryddion GRhS wedi cael sicrwydd ei bod mor drylwyr fel na fyddai dim problemau'n codi. Ond mae problemau wedi dod i'r amlwg erbyn hyn, fel amser ac arian. Roedd angen gofyn cwestiynau caled er mwyn dysgu sut yr aeth pethau o chwith. Dywedodd hefyd yr hoffai gwrdd â Dr Holliday.

Dywedodd Nigel Lowe y byddai'n cyfleu'r sylwadau. Roedd yn cytuno bod cwestiynau difrifol yma, a bod gwersi pwysig i'w dysgu yn sgil y Energy*Solutions*.

7. Diweddariad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Cyflwynwyd adroddiad yr ONR gan Nick Blackburn.

Dywedodd Nick Blackburn mai ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol oedd lleihau ei bresenoldeb ar y safle, gyda'r nod o archwilio ar ddau fis allan o dri, yn hytrach na bob deufis.

O ran arolygiadau hyd yma, nid oedd dim problemau wedi'u codi na'u canfod. Nid oedd dim problemau o safbwynt diogelwch radiolegol niwclear.

Nododd fod ei gydweithwyr yn yr ONR wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwella a oedd yn ymwneud ag asbestos, ond pwysleisiodd nad oedd hwn yn fater a oedd yn benodol i Wylfa – mae'n fater sy'n gysylltiedig â Magnox a'r ystâd niwclear. Byddai safle arall wedi cael yr un hysbysiad.

8. Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Paul Wright.

Bu lleihad mewn gollyngiadau ers diwedd cynhyrchu trydan, ac nid oedd dim i achosi pryder.

Roedd arolygiad ar un arall o safleoedd Magnox ddiwedd 2016 wedi canfod nad oedd lefelau larymau yn y cyfarpar monitro a ddefnyddid i glirio gwastraff o adeilad yr adweithydd wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r 'olion bysedd' gwastraff mwyaf diweddar. Roedd achos tebyg wedi'i ganfod yn Wylfa ym mis Rhagfyr 2016. Roedd rhybudd wedi'i gyhoeddi i'r safle ac roedd ymateb y safle wedi bod yn dda a rhagweithiol, gyda chamau cywiro yn cael eu rhoi ar waith.

9. Diweddariad gan Reolwr Gwastraff Wylfa

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stuart Law.

Nid oedd dim anghyffredin i'w adrodd. Mae'r gwastraff yn gadael y safle'n effeithlon gyda hyd at 5-6 o fflasgiau'n cael eu cludo bob wythnos.

Hefyd, mae un cynhwysydd o wastraff asbestos yn gadael y safle bob wythnos.

Cwestiynau

Gofynnodd Gordon Warren a oedd llosgydd yn dal yn weithredol ar y safle.
Dywedodd Stuart Law nad oedd y llosgydd ar y safle bellach yn cael ei ddefnyddio a'i fod wedi'i gau dair blynedd yn ôl.

10. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol

Cafwyd adroddiad gan Mair Jones ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol.

Dangoswyd Fideo Cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox ar gyfer 2016 i'r gynulleidfa.

Roedd 142 o fudiadau wedi cael eu cefnogi ar draws y safleoedd yn 2016-17, ac roedd cyfanswm o £724,279 wedi'i ddyrannu.

Roedd 26 o geisiadau Wylfa wedi cael eu cymeradwyo gyda'r arian a ddyfarnwyd yn £396.853.

Roedd cyfanswm o £38,892 wedi'i ddyfarnu yn ardal Wylfa yn y flwyddyn ariannol hon, gyda Chlwb dros 50 Oed Benllech, Clwb Gweithgareddau Awyr Agored Ysgol Friars, Old Gaffers Club Gogledd Cymru a Regatta Afon Menai wedi cael cefnogaeth o dan y cynllun Cymdogion Da.

Roedd Rhaglen Sgiliau Gyrru Cymunedau yn Gyntaf Môn a'r Ganolfan Profi Sgiliau Adeiladu wedi cael £37,372 ar gyfer trydedd blwyddyn eu rhaglen o dan y cynllun Lliniaru.

Nodwyd hefyd bod gŵyl seiclo bythefnos o hyd, a oedd yn arwain at Gymal Cyntaf 'Grand Depart' o Gymru yr Aviva Tour of Britain, wedi cael cymorth o dan gynllun economaidd gymdeithasol Magnox yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a bod yr Eisteddfod Genedlaethol - a gynhelir ym Môn ym mis Awst - hefyd wedi cael cymorth. Bydd gan Magnox Ltd stondin arddangos ar y Maes ac estynnwyd croeso cynnes i Aelodau'r GRhS i ymweld oes oeddent yn mynd i'r Eisteddfod.

11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chafwyd dim cwestiynau.

12. Unrhyw Fater Arall

Daeth y cyfarfod i ben am 1540.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 12 Hydref 2017.